Williams y Post

Yn ystod ei amser fel postmon, teithiodd William Williams, Arfonia, Maes y Deri, nid llai na 189,000 milltir. Am 16 mlynedd cerddodd 18 milltir y dydd ac am 15 mlynedd cerddodd 20 milltir y dydd. Am ddwy flynedd yn Borth, byddai'n teithio 25 milltir y dydd ar ei feic. Unwaith yn unig yn ystod ei wasanaeth hir a hynod y methodd gyrraedd rhai o'r ffermdai mwyaf diarffordd a hynny oherwydd lluwchfeydd eithriadol o uchel a lluwchwyntoedd. Ar ôl ymddeol yn 1947 cyflwynwyd Medal Gwasanaeth yr Ymerodraeth iddo – arwydd o werthfawrogiad haeddiannol.

Ganwyd ef yng Ngwalchmai, Sir Fôn a dechreuodd ei yrfa ym Mhorthmadog ym 1910; cafodd ei drosglwyddo i Borth ym 1911 ac i ardal Tal-y-bont – Bontgoch ym 1912. Ym 1914 galwyd ef i fyny o blith y Milwyr Wrth Gefn a bu'n gwasanaethu yn Ail Gatrawd Gwarchodwyr y Grenadwyr am bedair blynedd ac anafwyd ef bedair gwaith. Bu'n gwasanaethu o dan unarddeg postfeistr ac ef

Williams the Post

During his time as a postman William Williams of Arfonia, Maes y Deri travelled no less than 189,000 miles. For 16 years he walked 18 miles a day and for 15 years covered 20 miles a day. For two years at Borth he did 25 miles a day on his bicycle. Only once during his long and remarkable record of service did he fail to get through to some of the remote farm houses and that was because of exceptionally high snow drifts and a blizzard. After retiring in 1947 he was awarded the Imperial Service Medal – a well deserved gesture of appreciation.

Born in Gwalchmai, Anglesey, he started his career at Porthmadoc in 1910; was transferred to Borth in 1911 and to the Tal-y-bont/Bontgoch area in 1912. In 1914, he was called up from the Reserve, served for four years in the 2nd Battalion of the Grenadier Guards and was wounded four times. He served under eleven postmasters and was one of the most popular and courteous officers in the rural area.

oedd un o'r swyddogion mwyaf poblogaidd a chwrtais yn yr ardal wledig.

Roedd Wiliams y Post yn ŵr o gymeriad cryf ac yn actor gwych. Bu yn perfformio ar lwyfan y Neuadd Goffa laweroedd o weithiau.

Yn y tri-degau roedd saith o fechgyn o Birmingham yn treulio eu gwyliau yn teithio drwy Gymru ar eu beiciau a dyma gyrraedd Penrhiw, Tal-y-bont, a ffwrdd â hwy i lawr y rhiw. Ie, 'dach chi'n iawn, methu cymryd y tro yn y gwaelod a mynd dros wal y bont, un ar ôl y llall i ganol y Leri. Llwyddodd chwech ohonynt i gerdded allan efo dim ond mân anafiadau gan adael un mewn trafferthion, ei glogyn wedi mynd dros ei ben, ac yn boddi. Wrth lwc, yr oedd Wiliams y Post yn digwydd bod yn y fan a'r lle ac aeth i mewn i'r afon a'i achub a'i ymgeleddu. Rhyw dro yn yr wythdegau daeth y bachgen a achubwyd yma i Dal-y-bont i ddiolch i William Williams am ei achub ond yr oedd wedi marw rhyw dri mis cyn hynny. Yr oedd yn ddrwg iawn ganddo na allai fod wedi dod ynghynt oherwydd iddo gael ei glwyfo yn y rhyfel ac wedi bod yn rhy wael i deithio.

William Williams oedd y cyntaf o ardal Tal-y-bont i drallwyso gwaed i glaf. Roedd Tom James, Ffatri Leri yn dioddef o glefyd y gwaed (leukemia heddiw) a William Williams a wirfoddolodd i fynd i lawr i'r ysbyty yn Heol y Gogledd, Aberystwyth i orwedd ar wely wrth ochr y claf er mwyn trosglwyddo peth o'i waed i gorff y claf; profiad digon brawychus y dyddiau hynny. Gwnaeth hyn ddwy waith wedyn.

Valma Jones

Williams the Post had a strong personality and was an excellent actor. He performed on stage in the village hall several times.

In the thirties seven boys from Birmingham were on a cycling holiday in Wales. They reached Penrhiw, Tal-y-bont and then came down the hill. Yes, you are right, they failed to take the corner at the bottom and went over the bridge wall one after the other into the river Leri. Six managed to walk out with minor injuries, leaving one in difficulties, his cloak over his head and drowning. Luckily, Williams, the Post, happened to be there; he jumped in, saved him and took care of him. Sometime in the eighties the boy returned to Tal-y-bont to thank William Williams but he had died three months before. He was sorry that he had not been able to come sooner; he had been injured during the war and had been too ill to travel.

William Williams was the first from the Tal-y-bont area to give a blood transfusion to a sick person. Tom James, Leri Factory, was suffering from what today is known as leukemia and William Williams volunteered to go down to the North Road hospital to lie on a bed beside the sick person and have blood transferred from his own body to the patient's. It must have been an horrendous experience at that time. This was done on two more occasions.

Valma Jones